BT a Kingston yn cael eu penodi'n ddarparwyr gwasanaeth byd-eang a'r amodau gwasanaeth byd-eang penodol

Datganiad a Hysbysiad a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu ar weithredu'r Gyfarwyddeb Gwasanaeth Byd-eang

22 Gorffennaf 2003

S.1 Heddiw, mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu ('Y Cyfarwyddwr') wedi cyhoeddi Hysbysiad ac ynddo mae'n cynnig y dylai BT a Kingston gael eu penodi'n ddarparwyr gwasanaeth byd-eang ac mae hefyd yn cynnig gosod yr amodau gwasanaeth byd-eang penodol arnynt. Gwneir yr Hysbysiad yn unol â Rheoliadau Cysylltiadau Electronig (Gwasanaeth Byd-eang) 2003 ('Y Rheoliadau Gwasanaeth Byd-eang'), a bydd y cynigion a nodir yn yr Hysbysiad yn dod i rym o 25 Gorffennaf 2003.

S.2 Eglura'r Datganiad atodol hwn pam fod BT a Kingston wedi'u penodi yn y fath fodd a pham fod yr amodau penodol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gwasanaeth byd-eang, hynny yw, darparu gwasanaethau cysylltiadau electronig sylfaenol i bob defnyddiwr olaf yn y DU.

S.3 Ar 12 Mawrth 2003, cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Hysbysiad yn nodi ei gynigion o ran darparu gwasanaethau byd-eang yn y DU ('Yr Hysbysiad Cyntaf'), ynghyd â phapur ymgynghorol, a oedd yn ceisio barn ar:

- telerau'r amodau penodol, a fyddai, ynghyd â'r amodau cyffredinol yr ymgynghorwyd yn eu cylch eisoes, yn sicrhau gwasanaeth byd-eang; a'r
- darparwyr cysylltiadau electronig y byddai'r amodau penodol hynny'n berthnasol iddynt.

S.4 Roedd gofyn i'r Cyfarwyddwr ymgynghori ar y materion hyn oherwydd newidiadau i'r ffordd y rheolir rhwydweithiau a gwasanaethau cysylltiadau electronig o ganlyniad i bedair Cyfarwyddeb GE newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2002 ac y mae'n rhaid eu gweithredu trwy'r GE erbyn 25 Gorffennaf 2003. Dyma Gyfarwyddebau newydd y GE:

- Cyfarwyddeb 2002/19/GE Senedd Ewrop a Chyngor 7 Mawrth 2002 ar fynediad i rwydweithiau cysylltiadau electronig a chyfleusterau cysylltiedig a'r cydgysylltiad rhyngddynt ('Y Gyfarwyddeb Mynediad');

- Cyfarwyddeb 2002/20/GE Llywodraeth Ewrop a Chyngor 7 Mawrth 2002 ar awdurdodi rhwydweithiau a gwasanaethau cysylltiadau electronig ('Y Gyfarwyddeb Awdurdodi');
- Cyfarwyddeb 2002/21/GE Llywodraeth Ewrop a Chyngor 7 Mawrth 2002 ar fframwaith rheoliadol cyffredin ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau cysylltiadau electronig ('y Gyfarwyddeb Fframwaith'); a
- Cyfarwyddeb 2002/22/GE Llywodraeth Ewrop a Chyngor 7 Mawrth 2002 ar wasanaeth byd-eang a hawliau defnyddwyr mewn perthynas â rhwydweithiau a gwasanaethau cysylltiadau electronig ('Y Gyfarwyddeb Gwasanaeth Byd-eang').

S.5 Mae'r Datganiad hwn yn:

- egluro pam fod y Cyfarwyddwr wedi penodi BT a Kingston fel darparwyr gwasanaeth byd-eang yn y DU;
- egluro amodau penodol y gwasanaeth byd-eang a gaiff eu gosod ar BT a Kingston, yn egluro unrhyw wahaniaethau rhwng yr amodau yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn flaenorol a'r fersiynau terfynol;
- cynnwys Canllawiau ar 'fynediad swyddogaethol i'r Rhyngrwyd'; a
- crynhoi ymatebion a dderbyniwyd i'r papur ymgynghorol.

Manylion cyswllt:

Ritu Manhas
Oftel
50 Ludgate Hill
London
EC4M 7JJ
Ffôn: 020 7634 5309
Ffacs: 020 7634 5309
e-bost: ritu.manhas@oftel.gov.uk